








# Dosbarth Meithrin

## Miss Stephens

## Tymor yr Hydref

## 2025















# Dyma ni!



## Rydw i'n cyfathrebu trwy.......

- ddatblygu fy sgiliau gwrando, talu sylw a deall wrth chwarae a rhyngweithio
- mynegi fy anghenion, fy meddyliau, fy nheimladau, fy syniadau a fy marn
- talu sylw i bobl eraill
- cyflawni arferion cyfarwydd ac ymgymryd â rolau wrth chwarae
- rhannu fy straeon fy hun.
- ailadrodd straeon a dwyn digwyddiadau i gof gan ddefnyddio lluniau i fy helpu
- ymuno mewn straeon a rhigymau cyfarwydd
- sylwi ar symbolau yn fy amgylchedd a dechrau sylweddoli bod ystyr iddyn nhw
- defnyddio adnoddau gwneud marciau â rheolaeth gynyddol
- rhoi fy ystyr fy hun i fy marciau
- defnyddio iaith mewn ffordd chwareus a llawn hwyl
- defnyddio iaith yn bwrpasol
- dewis mathau gwahanol o ddeunyddiau darllen, gan gynnwys rhai digidol
- sylwi ar batrymau gweledol, clywedol a ffisegol yn fy amgylchedd ac wrth chwarae, a'u harchwilio.

## Rydw i'n perthyn trwy.......

- adnabod pwy ydw i
- sylweddoli fy mod yn bwysig i'r bobl o'm cwmpas.
- cymryd rhan ym mywyd y lleoliad.
- gofalu amdanaf fi fy hun.
- dilyn arferion cyfarwydd.
- deall a dilyn rhai rheolau a ffiniau.
- adnabod fy anghenion fy hun ac anghenion pobl eraill.
- sylweddoli bod rhai pethau yn anniogel.
- sylweddoli fy mod yn perthyn i gymuned ehangach
- adnabod yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol.

## Rydw i'n cydweithio trwy.......

- Ryngweithio ag eraill
- Cymryd fy nhro a rhannu.
- Bod yn garedig
- Bod yn ystyriol o bobl eraill.
- Adnabod fy nheimladau
- Adnabod teimladau pobl eraill
- Rheoli fy ymatebion a chymorth
- adnabod sut rwy'n debyg ac yn wahanol I bobl eraill.
- sylweddoli bod fy ngweithredoedd i a gweithredoedd pobl eraill yn arwain at ganlyniadau

## Rydw i'n ymchwilio trwy......

- ganolbwyntio ar bethau sydd o ddiddordeb i mi
- datblygu fy nealltwriaeth o'r ffordd mae pethau'n gweithio
- defnyddio fy nghamgymeriadau i wella fy nealltwriaeth, gyda chymorth
- rhannu fy mhrofiadau a'r hyn rwy'n ei feddwl
- cyfleu fy syniadau drwy wneud marciau neu ddefnyddio technoleg briodol
- archwilio priodweddau defnyddiau
- datblygu fy ngallu i feddwl yn greadigol ac yn feirniadol drwy archwilio sylwi ar siâp, cymesuredd a phatrwm yn yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- chwarae â meintiau a rhifau
- defnyddio iaith fathemategol syml wrth chwarae ac i bwrpas
- trosglwyddo'r hyn rwy'n ei ddysgu i sefyllfaoedd newydd
- datrys problemau a myfyrio ar yr hyn rwy'n ei ddysgu
- datblygu gwydnwch a dyfalbarhad
- datblygu fy nghysyniad o amser
- sylwi ar yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng pobl, lleoedd a phethau
- defnyddio fy synhwyrau i archwilio'r byd o'm cwmpas.

Wythnos 2
08.09.2025

# Cerddoriaeth







Rydym wedi bod bod yn trafod ein hoff ganeuon yn y dosbarth yr wythnos yma.
Dyma ni yn defnyddio gwahanol offerynau i berfformio rhai o nhw ar lwyfan y Meithrin.
"Let it go! Let it go!" - Aria









Dyma ni'n defnyddio adnoddau gwahanol i greu lluniau o wynebau ni, ein teulu a ffrindiau










# Dyma ni!

Yn ystod ein hamser cylch, buom yn trafod emosiynau gyda help Mr Octopws. Beth yw hapus? Beth yw trist?
Dyma ni'n ymarfer a dangos wynebau gwahanol am hapus a thrist.
Sut wyt ti'n teimlo?
Dyma ni'n defnyddio ein siart emosiynau yn y dosbarth i ddangos ein teimladau wrth gyrraedd ysgol ac yn ystod y dydd.

Wythnos 3
15.09.2025

















# Sgiliau Corfforol

Rydym wedi bod yn datblygu ein sgiliau corfforol yn y dosbarth ac allan yn yr ardal allanol.
Buom yn cydbwyso wrth mynd o amgylch y cwrs rhwystr, dringo a llithro ar y llithren a Dilyn cyfarwyddiadau wrth ddawnsio gyda Elsa.
"Look Miss Stephens...I can do the same as Elsa"
- Sammy













Rydym wedi bod yn datblygu ein sgiliau llawdriniol manwl yr wythnos yma gan ddefnyddio'r siswrn.
Roedd llawer o bethau o amgylch yr ysgol i dorri - papur, dail a hyd yn oed sbageti!

# Sgiliau llawdriniol manwl





# Cydweithio













# Testun Trafod

Wythnos 4
22.09.2025

# Casglu mwyar a gwneud crymbl

## Casglu

Aethom ni am dro o amgylch yr Ysgol i weld pa fath o bethau oedd yn tyfu er mwyn defnyddio i goginio. Roedd pawb yn cyffrous iawn i weld mwyar duon yn tyfu ar y goeden. Ar ôl casglu, aethom ni nol i'r dosbarth i olchi a pharatoi yn barod i goginio.









## Blasu

O'r diwedd roedd yr amser wedi dod i fwyta'r crymbl mwyar duon.
Hufen ia a chrymbl....
Blasus iawn!!

"It neis"
- Mali








## Coginio

Wrth ddilyn cyfarwyddiadau Miss. Stephens a Mrs. Bates yn ofalus, buom yn brysur yn ychwanegu a chymysgu'r cynhwysion i greu'r crymbl. Nesaf roedd rhaid rhoi'r crymbl yn y ffwrn i goginio.








Wythnos 5
29.09.2025

# Wyddor Stumie'








Rydym wedi bod yn dysgu adnabod llythrennau'r wythnos yma - wyddor stumie'. Dysgom pa symudiadau sydd yn mynd efo rhai o'r llythrennau gwahanol. Rydym hefyd wedi bod yn dysgu sut i adnabod ac adeiladu ein henwau. Roedd rhaid helfa am lythrennau'r wyddor stumie a gosod y rhai cywir o dan ein henwau. Braf i weld rhai yn ymdrechu i ysgrifennu enw'n annibynnol.



















# Arbrofi a pheintio efo mwyar duon





# Marcio




Dyma ni'n defnyddio offer gwahanol o amgylch y dosbarth i greu marciau


"It's not the sun, it's heulog"
- Aria



Wythnos 6
06.10.2025

# Yr Hydref



Aethom ni am dro o amgylch tir yr ysgol i gasglu gwrthrychau'r Hydref.
Roedd llawer o ddail wedi disgyn i lawr i'r llawr yn barod.
Wrth gasglu, canodd pawb y gan 'Dail yr Hydref' a chafodd syniad i ddefnyddio'r dail yn ein gweithgareddau dosbarth – creu lluniau, datblygu sgiliau torri ayyb

Dysgom ni am yr Hydref a beth sydd yn digwydd i'r coed trwy ganu cân 'Dail yr Hydref sydd yn disgyn'. Roedd pawb yn awyddus i beintio coeden yr Hydref gan ddefnyddio offer o amgylch y dosbarth i brintio.

"Can we peintio gyda leaves?"

- Mali

"I want to paint the coeden"

- Cadi



# Wythnos 7
13.10.2025
























Rydym wedi mwynhau
trafod yr Hydref wythnos yma.
Buom ni fel ditectif yn edrych am bethau
Hydrefol gwahanol
yn y llun a dysgu enwau newydd fel
pwmpen, wiwer, ayyb
Rydym wedi defnyddio gwrthrychau'r
Hydref i wneud llawer o weithgareddau
gwahanol yr wythnos yma.

Ar ôl mynd am dro i gasglu dail yr Hydref penderfynom ni
i ddefnyddio'r dail i greu draenogiaid fel Dilys, ein ffrind
newydd yn y dosbarth.
Roedd Dilys yn hapus iawn i weld ei ffrindiau newydd i
fyny ar y wal.

"Look it's like Dilys isn't it?" - Oliver

Wythnos 8
20.10.2025

# Testun Trafod






"Look this is the same isn't it. I got one and the picture got one."
- Theo

"I got an oren pumpkin haven't I Miss. Stephens?"
- Aria






# Patrymau Hydrefol









Wrth ddysgu am yr Hydref a thrafod am y lliwiau gwahanol sydd i weld, penderfynom ddefnyddio i greu patrymau gwahanol. Buom yn copïo a chreu patrymau ailadroddiadau syml a phethau fel wynebau a choeden yr Hydref.

# Darganfod





# Yr Wyddor








Wythnos 9
03.11.2025

# Noson Tan Gwyllt








Rydym wedi bod yn dysgu
am bwysigrwydd cadw yn ddiogel ar noson tân
gwyllt. Mae'n bwysig i
feddwl am bobl sydd yn wylio ac yr anifeiliaid hefyd.
Dydy'n nhw ddim yn hoffi swn y tan gwyllt. Dyma
luniau
ohonom ni'n creu tân gwyllt lliwgar iawn
yn ein ffeiliau Hub.










# Creu toes








# Sgiliau Rygbi







Llawer o hwyl a sbri yn ein
sesiwn corfforol yr wythnos yma.
Buom yn dysgu sgiliau rygbi ar ôl gweld
Cymru yn chwarae ar y teledu.
Roedd llawer wedi serenni wrth gicio
pêl a dangos sgiliau gwych taflu.



Wythnos 10
10.11.2025





# Diwrnod Cofio

Rydym ni wedi bod yn dysgu am ddiwrnod Cofio a phwysigrwydd gwisgo pabi coch. Dyma ni yn dangos parch wrth neud 2 funud o dawelwch.











# Plant Mewn Angen











# Wythnos Gwrth fwlio

Dysgom yn y dosbarth sut i fod yn ffrind da i bawb a defnyddio dwylo caredig wrth chwarae.

"I was being a good friend because they can't brush their feet."
- Cadi









Wythnos 11
17.11.2025






# Bwrw Eira







Mae'n bwrw eira!!
Rydym wedi cael llawer o hwyl allan yn ein hardal allanol yn marcio a chreu siapiau gan ddefnyddio'r eira ac iâ.

"I can break it into little bits"
- Edison

"I doing a picture in the snow." - Trystan









Cafodd pawb llawer o hwyl a sbri yn defnyddio'r parasiwt i symud y bêl o amgylch. Roedd pawb yn gyffrous i chwarae gem cuddio o dan y parasiwt hefyd.



# Corfforol





# Marcio

"I was just drawing a square."
- Sammy







Wythnos 12
24.11.2025

# Coeden Nadolig

Mae pawb wedi bod yn gyffrous iawn i weld diwedd mis Tachwedd a dim hir nes bod Nadolig yma.. Amser i osod y goeden i fyny yn y dosbarth ac addurno.
Roedd y goleuadau yn fflachio a pheli yn disgleirio.















# Ymarfer y Geni

Rydym wedi bod yn dysgu caneuon ychwanegol ar gyfer ein sioe Nadolig 'Y Geni' yn ystod yr wythnos, gan ddechrau dysgu a pherfformio allan rhannau'r prif gymeriadau yn y sioe.

# Lapio anrhegion









Wythnos 13
1.12.2025

# Sioe Nadolig Cyw
















Cafodd pawb amser arbennig ar ein taith i weld sioe Nadolig Cyw.
Cawsom gyfle i weld rhai o gymeriadau S4C, canu a dawnsio a chael lot o hwyl.
Roedd rhaid helpu Cati, Dafydd, Ben dant a Tref dod o hyd i'r llwch hud Siôn Corn er mwyn helpu'r sled hedfan.

"That looks like our tv"
- Sammy








Wythnos 14
08.12.2025

# Perfformiad y Geni

Roedd pawb yn gyffrous iawn wrth gerdded mewn i'r neuadd. Roedd yr amser wedi dod i groesawi'r teuluoedd, ffrindaiau ac athrawon a dangos yr holl waith caled rydym wedi bod yn gwneud i ddysgu a pherfformio'r sioe 'Y Geni'.













Sioe Y Geni 2025


Wythnos 15
15.12.2025

# Gweithgareddau Nadolig






















Rydym wedi bod yn brysur iawn yn ystod yr wythnos diwethaf yn creu addurniadau Nadolig i fynd adref. Mae llawer o baent a glitter wedi cael i ddefnyddio a phawb yn gyffrous bod Siôn Corn ar ei ffordd i weld ni. Rydym hefyd wedi cael llawer o hwyl a sbri yn gwisgo i fyny fel corrach a helpu i lapio anrhegion Nadolig i osod o dan y goeden Dosbarth.

Nadolig Llawen!







Dyma ni
















Dosbarth Meithrin
Miss Stephens
Tymor y Gwanwyn 2026

Wythnos 1
05.01.2026






# Y Gaeaf

## Plu Eira






Rydym wedi bod yn defnyddio llawer o ddefnyddiau gwahanol i farcio yn y dosbarth. Rydym wedi bod yn printio er mwyn creu plu eira a marcio patrymau gwahanol.



## Poeth neu Oer

Rydym wedi bod cyflwyno a dysgu am dywydd poeth ac oer yr wythnos yma ar ôl gweld yr eira tu allan. Buom yn trafod mynd i'r traeth pryd mae'r tywydd yn boeth a bod yr eira tu allan yn oer. Penderfynom ni creu byd bach poeth ac oer tu allan oedd yn dangos y traeth ac eira.




## Marcio







## Dyn Eira

Rydym wedi yn lwcus iawn yr wythnos yma i gael llawer o eira yn cwmpo adref ac yn yr ysgol. Buodd pawb yn awyddus i adeiladu dynion eira yn ein ddosbarth allan o does, fel y rhai sydd wedi bod yn yr arald allanol adref.

"Rolling, rolling. I make a snowman" – Ezra





Wythnos 2
12.01.2026







# Jambori Martyn Geraint




Rydym wedi cael llawer o hwyl ar ein gwibdaith heddiw i weld Martyn Geraint.
Buom yn canu a dawnsio a chuddio wrth iddo saethu dŵr allan i'r gynulleidfa.

"Un dau tri…pedwar" - Reggie








# Wyddor Stumie






"I came in car mammy today" - Trystan




# Siapiau 2d

# Teithio i'r Ysgol

"I came in car mammy today" - Trystan

"I want to do the neidr. Car Mamgu heddiw" - Grace




Wythnos 3
19.01.2026

# Pengwin ar ei wyliau





## Beth sydd angen yn y cês?

Hyfryd oedd clywed stori yn y dosbarth am bengwin oedd angen mynd ar ei wyliau i wlad boeth. Fe wnaeth y pengwin llawer o weithgareddau diddorol ond roedd angen cymorth i ddidoli dewis y dillad cywir ar gyfer y gwyliau.

"Bbbbbbrrrrr it's oer with the Penguin" - Mali F





















Rydym wedi bod yn mwynhau ymarfer ein sgiliau llawdriniol manwl wrth gasglu peli eira. Roedd angen canolbwyntio a sicrhau bod y peli ddim yn cael ei ddal yn y we iâ. Rydym hefyd wedi bod yn helpu'r penguiniaid y cwch ar hyd y dŵr trwy chwythu'r gwellt - gwaith caled iawn.









## Cymeriadau'r stori













## Adeiladu tŷ adar









Wythnos 4
26.01.2026

# Creu pitsa Santes Dwynwen













Gyda dathliad Santes Dwynwen yn yr wythnosau nesaf rydym wedi bod yn trafod Beth yw Cariad? Cariad tuag at deulu, ffrindiau, pethau rydym yn hoffi gwneud ayyb
Rydym wedi penderfynu creu bisgedi siâp calon i roi i bobol rydym yn caru.

"Cheese...I love cheese" - Edison

# Disgo Santes Dwynwen






Caru ti

Rydym wedi bod yn trafod Santes Dwynwen yn ein dosbarth a meddwl am bwy sydd yn bwysig iawn i ni.
Dyma ni'n tynnu lluniau o bobl ni'n caru er mwyn arddangos i bawb yn ein disgo Santes Dwynwen.
"I love my family I do" - Theo






Wythnos 5
02.02.2026






# Wythnos Arsylwi adar










Ar ôl gwrando ar y stori 'Robin Goch' roedd pawb angen creu bwyd
adar a gosod o amgylch tir yr ysgol. Gwaith anniben wrth rolio'r menyn cnau yn yr hadau.

"If I was to eat this would it turn me into an adar as well?" - Arthur

# Pwy sydd ar y ffôn?







# Darllen






# TGCh
# Teipio, Marcio a dosbarthu






Buom yn defnyddio'r gliniadur a chwarae rôl ditectif yn ein sesiwn digidol. Roedd angen darganfod y llythrennau gwahanol a theipio'r llythrennau.

"What letter is this? Ccccccc Da iawn!" - Hope






Wythnos 6
09.02.2026



# Crempogau









" I make these in my home. I love pancakes I do" - Theo

Rydym wedi cael ddiwrnod blasus iawn heddiw yn dilyn cyfarwyddiadau er mwyn creu crempogau.
Llawer o wynebau cyffrous iawn.

# Perthyn

Prosiect Perthyn - Buom ni'n tynnu llun i ddangos pwy/ beth sydd yn helpu ni i deimlo eu bod yn perthyn e.e. teulu, clybiau, Ysgol, ffrindiau.

"I'm doing my Daddy, Mammy and Ivy" - Aria





# Diwrnod Miwsig Cymru







Heddiw, gwnaethom ddathlu Dydd Miwsig Cymru gyda disgo distaw yn yr Ysgol. Roedd pawb yn cael amser bendigedig, ac roedd yn hyfryd gweld rhai symudiadau dawnsio gwych gan y plant. Gwrandawom ar ein hoff ganeuon Cymraeg ac mwynhau'n fawr iawn!

# Bwydo adar







Wythnos 7
23.02.2026






# Adnabod enwau







Rydym wedi bod yn dysgu sut i adnabod ac adeiladu ein henwau. Roedd rhaid helfa am lythrennau'r wyddor stumie a gosod y rhai cywir o dan ein henwau. Braf i weld pawb yn ymdrechu i ysgrifennu enw'n annibynnol.

"My name is Theo Lloyd-Jones" - Theo


# Sgiliau llawdriniol manwl






Gyda Dydd Gŵyl Dewi wythnos nesaf a chawl ar y fwydlen, penderfynom fod angen torri llysiau yn yr ardal chwarae rôl er mwyn coginio cawl ein hun.











# Stryd y Rhifau





menter

# Sesiwn Stori a Chân Meithrin a Derbyn

Wythnos 7
23.02.2026

## Dwi'n gweld Cwningen




















## Elfed yr Eliffant

Wythnos 8
02.03.2026











Wythnos 8
02.03.2026

# Dydd Gŵyl Dewi Sant

Rydym wedi bod yn dysgu heddiw am draddodiad pwysig yng Nghymru - Dydd Gŵyl Dewi Sant. Rydym wedi cael cyfle i ganu o flaen rhieni'r ysgol, gwisgo ein gwisgoedd traddodiadol, a chwblhau llawer o weithgareddau. Roedd pawb yn gyffrous wrth goginio picau ar y maen gyda Mrs. Bates... Roeddent yn blasu'n arbennig! Mmmm!















# Diwrnod y llyfr

Diwrnod cyffrous iawn i bawb yn yr ysgol yn dathlu diwrnod y llyfr. Rydym wedi mwynhau trafod ein hoff lyfrau a chwblhau llawer o weithgareddau hwylus.
"Fi yn Peppa Pig. I love Peppa Pig" - Cadi






# Bore Coffi








Wythnos 9
09.03.2026












Rydym wedi bod yn cwblhau tasg ChATT yn y dosbarth yr wythnos yma, er mwyn helpu efo datblygu sgiliau lleferedd.
Rydym wedi bod yn adeiladu tai efo'r cwpannau a chwythu nhw lawr fel y blaidd mawr, cas.
"Adeiladu ty bach 1,2,3" - Grace

# Darganfod

"Find the mochyn in the mud" - Sienna

Roedd cymeriadau allan o'r stori'r 3 mochyn bach yn cuddio yn y mwd. Roedd angen bod yn dditectif a chwilio amdano.











# Sul y Mamau





Rydym wedi bod yn brysur iawn wythnos yma yn siarad am bobol sydd yn helpu ni. Buom yn siarad am ddiwrnod Sul y Mamau a pa mor bwysig yw'r gair 'Diolch'.
Dyma luniau ohonom ni'n creu cardiau Sul y Mamau gan dynnu llun Mami ar y blaen. Hyfryd!

Wythnos 10
16.03.2026






# Adeiladu tŷ bach






"Er mwyn adeiladu a chreu gwahanol dai fel y tri mochyn bach, aeth pawb am dro i ddarganfod defnyddiau gwahanol i ddefnyddio.
Dyma ni'n defnyddio numicon, briciau mawr a bach a chreu lluniau allan o wellt, brigau a phaent.

# Bluebot











# 3 Mochyn Bach





"Let's put the Mochyn in the mud. Un, dau, tri pedwar"
- Grace
" I can put naw. Edrych?"
- Arthur

# Casglu cynffonnau moch






"I found glas" - Edison

"I got to find the piggy tails" - Alber

# Diwrnod trwyn coch





Wythnos 11
23.03.2026

# Sesiwn Stori a Chân
# Meithrin a Derbyn



## Pasg











"Look at my bunny?" - Grace

Amser creadigol iawn wrth ddathlu Pasg yn y dosbarth Meithrin. Amser i greu addurniadau a helfa wyau Pasg yn yr ardal allanol. Roedd pawb yn gyffrous iawn i weld cynhwysion siocled a rice crispies er mwyn creu cacennau. Blasus iawn!

"We need to melt the chocolate yn y microwave"
- Mali F



menter
Menter Cwm Gwendraeth Elli

## Creu Patrymau


























# Dyma ni





















Dosbarth Meithrin

Miss Stephens

Tymor y Haf 2026

Wythnos 1
14.04.2026



# Marcio





Rydym wedi mwynhau marcio yn yr ardaloedd gwahanol wythnos yma. Buom yn defnyddio offer marcio i dynnu Lluniau, creu patrymau a hefyd ymarfer ffurfio llythrennau.

"I drawed my Mammy and Daddy" - Triystan"I did Letters. Llythrennau" - Reggie
"I'm doing my family" - Lilah













# Croeso!



















Fe waethom ni croesawi'r plant newydd i'r dosbarth wythnos yma. Roedd pawb yn arbennig yn helpu i ddangos yr ardaloedd ac esbonio'r rheolau dosbarth.

"I made you some tea" - Imora
"I got the glas one Miss Stephens" - Briallen
"Look, tea" - Raya
"There the dinosaur is hiding" - Lilah

Wythnos 2
20.04.2026

# Gwasanaeth















Daeth y cyfle i ni fel dosbarth i gymryd gwasanaeth o flaen
yr ysgol a theuluoedd. Thema'r gwasanaeth oedd Hapusrwydd
- amser i fynd am dro o amgylch y dosbarth a rannu ein hoff bethau i wneud yn yr ysgol.
Canodd pawb yn wych! Da iawn dosbarth Meithrin!

"Dewch i weld dosbarth ni" - Erin

# Costa Trimsaran








"I made you a hot chocolate"
- Oliver

"Miss Stephens, here's your burger and tea. It's dwym"
- Cadi
























# Sgiliau llawdriniol manwl

Wythnos 3
27.04.2026







# Dathlu Dydd Rhyngwladol Dawns gyda Martyn Geraint a Siani Sionc!

Cadw'n heini!









Dawnsio






Canu!



Chwerthin!




Cael hwyl!



Wythnos 4
04.05.2026

# Ymarfer






# Mabolgampau











Gyda mabolgampau ysgol ar y ffordd, roedd angen ymarfer ar gyfer y rasys syth, ras rhwystr, wy a llwy a llawer o bethau eraill. Rhedodd pawb yn dda a braf oedd clywed cefnogaeth gan bawb arall.
Buom yn ymarfer yn yr ardal allanol y ras llwy ac wy. Roedd rhaid rhoi un llaw tu ôl eich cefn a cherdded yn ofalus heb gadael i'r wy cwympo.

"I hope it not silly and falls off" - Ezra



# Siapiau






Rydym wedi bod yn defnyddio siapiau 3d yn yr ardal allanol heddiw. Buom yn ddefnyddio wrth adeiladu cartrefi a cherbydau gwahanol.

"I made a tren. It goes really fast- Arthur




# Stryd y Rhifau







Wythnos 5
11.05.2026



# Band Pres Porth Tywyn





# Mabolgampau Menter Cwm Gwendraeth









Cymerodd pawb rhan yn Niwrnod Chwaraeon Menter Cwm Gwendraeth ym Mharc y Scarlets. Cafodd y plant amser gwych yn cynrychioli ein hysgol, gan ddangos brwdfrydedd a hyder mawr. Fe wnaethant fwynhau cystadlu ochr yn ochr â phlant o ysgolion eraill ac, yn bwysicaf oll, fe wnaethant roi eu gorau ym mhob ras.

# Dyma fi







Dyma ni'n tynnu'n lluniau o wynebau ni, ein teulu a ffrindiau gan gofio pa rannau'r corff sydd angen cynnwys. Roedd y can 'pen, ysgwyddau, coesau, traed yn dda er mwyn atgoffa ni.



# Joe Wicks


















Wythnos 6
18.05.2026






## Sgiliau Corfforol









## Defnyddio dychymyg

"I was making a house for my friends out of blocs pren and brics"
- Elsie

Amser cyffrous iawn yn defnyddio ein dychymyg ar draws y dosbarth.
Adeiladu, chwarae rôl a chydweithio.






## Chwynnu a Phlannu

Roedd pawb yn y dosbarth angen cael mwy o liw tu allan a phenderfynnodd bod angen blodau.
Cyn plannu roedd rhaid i ni chwynnu a pharatoi'r pridd.
Aethom ni ati wedyn i blannu tato er mwyn tyfu, coginio a blasu yn ein dosbarth.

"I wonder if the potatoes have grown yet?"
- Oliver









Wythnos 7
01.06.2026

# Y Lindysyn Llwglyd Iawn

"I'm reading the lindysyn book" - Theo
"Fat lindysyn - he eated all the food" - Edison

Rydym wedi mwynhau gwrando ar stori 'Y Lindysyn Llwglyd Iawn'.






# Croeso!












# Wythnos Diogelwch Plant






"I seeing the lindysyn. It made a cacwn lan y top" - Arthur

Roedd pawb yn gyffrous iawn heddiw wrth ddarganfod bocs yn y dosbarth. Pan agorwyd y bocs, gwelsom bot yn llawn lindys! Roedd y lindys wedi cyrraedd y Dosbarth Meithrin, ac roedd pawb wrth eu bodd yn eu gweld. Rydym yn edrych ymlaen at eu gwylio yn tyfu ac yn newid dros y dyddiau nesaf.






Wythnos 8
08.06.2026

# Y Lindysyn Llwglyd Iawn




## Creadigol




## Ble mae'r lindys?

















"They left the pot and wanted to go into the tent. The cacwn wanted to change into a pili-pala" - Sammy

Cafodd pawb syrpreis o weld bod y lindys yn y cocŵn wedi symud i mewn i babell yn barod i newid yn bili-pala.

Insect Lore

## Darganfod





"We looking at the lindysyn tails. Spikey!" - Cadi

"The tails were sharp and du and grey" - Oliver

Wythnos 9
15.06.2026









# Trefnu strori





"We had to copy the story of the pili-pala"
- Briallen

Buom yn trafod y stori'r lindysyn llwglyd iawn a threfnu'r lluniau i ddangos beth ddigwyddodd.









# Pili-pala















Cafwyd rhywbeth gwych yn y dosbarth heddiw. Gwelsom bili-pala yn torri allan o'i gocŵn ac yn dod i'n gweld yn y dosbarth. Roedd ganddo adenydd hardd coch a du.

# Sul y Tadau

Rydym wedi bod yn brysur iawn wythnos yma yn siarad am bobol sydd yn helpu ni.
Buom yn siarad am ddiwrnod pwysig sydd yn digwydd ar ddydd Sul a pha mor bwysig yw'r gair 'Diolch'.
Dyma luniau ohonom ni'n creu cardiau Diolch gan dynnu llun neu luniau o'r bobl sydd yn ein helpu pob dydd ar y blaen. Hyfryd!















# Diolch!

Wythnos 10
22.06.2026

# Y Lindysyn Llwglyd Iawn

## Hwyl Fawr









Ar ôl gofalu am y pili-palod a gweld y broses o'u newid o lindysyn bach iawn, daeth yr amser i ffarwelio. Roedd yn hyfryd eu gweld yn lledaenu eu hadenydd ac yn hedfan i ffwrdd i archwilio'r amgylchedd o'u cwmpas.

"Waw! Look there he is. Bye Pili-Pala. Hwyl Fawr"
- MaliF

## Cymesuredd












Dysgom ni am gymesuredd heddiw wrth beintio un ochr y papur a phlygu drosto. Buodd pawb yn gyffrous i weld siâp Pili-pala yn cael i greu allan o'r lliwiau gwahanol.



## Blasu ffrwythau








Wythnos 11
29.06.2026



# Mabolgampau

Cafodd pawb llawer o hwyl yn cymryd rhan yn y mabolgampau o flaen y rhieni. Cymerodd pawb rhan yn weithgareddau taflu, rhedeg, wy a llwy a chydweithio fel tîm.
Roedd rhaid canolbwyntio yn galed wrth gwblhau'r ras rhwystr.

"I'm going to run super fast like Sonic"
- Edison







Roedd pawb yn gyffrous iawn i weld bod aelod newydd wedi ymuno â'n dosbarth o'r ardal allanol - Gethin y wylan! Roedd yn hyfryd ei arsylwi bob bore drwy'r ffenest wrth i'w fam ei fwydo. Roeddem yn mwynhau ei weld yn gorffwys, yn tyfu'n gryfach ac yn ymarfer hedfan o ddydd i ddydd. Roedd yn brofiad arbennig i bawb.

## Gethin









Wythnos 12
06.07.2026






# Sioe Dewin a Doti yn Gerddi Botaneg








Cafodd pawb ddiwrnod gwych ar ein gwibdaith i'r Gerddi Botaneg i weld sioe Dewin a Doti. Roedd yn hyfryd cerdded drwy'r gerddi a mwynhau'r blodau lliwgar. Roedd pawb wrth eu bodd yn canu ac yn dawnsio yn ystod y sioe. Ar ôl hynny, cawsom gyfle i ymlacio ar y gwair a mwynhau ffrwythau blasus. Roedd y diwrnod yn llawn hwyl, chwerthin ac atgofion arbennig.





# Dathlu Tedi










I ddathlu Diwrnod Picnic Tedi heddiw, penderfynom gael picnic tedi ein hunain yn y dosbarth. Bu pawb yn brysur yn creu mygydau tedi i'w gwisgo, ac yn paratoi cacennau siocled a thost a oedd yn edrych fel wyneb tedi. Roedd pawb wrth eu bodd yn mwynhau'r gweithgareddau a'r bwyd blasus. Roedd hi'n ddiwrnod llawn hwyl a sbri i bawb!

Wythnos 13
13.07.2026

# Gwibdaeth i'r traeth








Cafodd pawb amser gwych ar y traeth.
Rydym wedi mwynhau adeiladu cestyll tywod, palu tyllau yn y tywod a helfa am drysor.
Llawer o hwyl a sbri i ddod a'r tymor i ben.

"I want to do a castell in the sand" - Trystan
" I'm going to be like an excavator and dig" - Arthur
"I like the sand. It's soft" - Imora

